



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y GRONFA GYNGHORI SENGL

NODIADAU CYFARWYDDYD

CYD-DESTUN STRATEGOL

1. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i hyrwyddo gwelliannau cynaliadwy i iechyd a lles pawb yng Nghymru ac yn cydnabod bod gan wybodaeth a chynghor am les cymdeithasol¹ rôl bwysig i'w chwarae wrth helpu pobl i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth er mwyn mynnu eu hawliau o ran cyfiawnder sifil a sicrhau bod pawb yng Nghymru yn cael cyfle teg a chyfartal mewn bywyd.
2. Yn y cyd-destun hwn, ym mis Rhagfyr 2016 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chynllun Gweithredu **pum mlynedd i Gymru, sef y Cynllun Gweithredu o ran Gwybodaeth a Chynghor (y 'Cynllun Gweithredu')**
3. Yn gwyno, bwriedir i'r 19 o gamau gweithredu a nodir yn y Cynllun Gweithredu wneud y canlynol:
 - gwella ansawdd gwasanaethau gwybodaeth a chynghor drwy helpu darparwyr i ddatblygu gwasanaethau gyda sicrwydd ansawdd;
 - symleiddio'r prosesau comisiynu ac ariannu a sicrhau bod arian ar gyfer gwasanaethau yn seiliedig ar asesiad o anghenion;
 - gwella mynediad at wasanaethau, yn enwedig ymhlith pobl sy'n tueddu i beidio â defnyddio gwasanaethau nes y byddant mewn argyfwng;
 - ymgorffori'r agenda atal mewn prosesau darparu gwasanaethau cynghori a hyrwyddo addysg gyfreithiol gyhoeddus i blant ac oedolion;
 - annog cydweithredu gwell rhwng pob rhanddeiliad mewn perthynas â chomisiynu a darparu gwasanaethau;
 - datblygu mesurau canlyniadau ar gyfer ymyriadau gwybodaeth a chynghor, sy'n gysylltiedig â'r nodau yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.
4. Ochr yn ochr â'i hymrwymiad i arwain y gwaith strategol o ddatblygu gwasanaethau cynghori, mae gan Lywodraeth Cymru ymrwymiad hirsefydlog hefyd i gynnig arian Grant i ddarparwyr ddarparu gwasanaethau cynghori ar les cymdeithasol.
5. Er mwyn datblygu'r ymrwymiad hwn yn y Cynllun Gweithredu o ran Gwybodaeth a Chynghor, er mwyn i Lywodraeth Cymru **'gyflwyno gwell cydgysylltu gyda'i harian ei hun ar gyfer gwasanaethau cynghori'**, mae

¹Mae cynghor am les cymdeithasol yn cynnwys dyled, gwahaniaethu, addysg, cyflogaeth, tai, mewnfudo a budd-daliadau lles.

Llywodraeth Cymru wedi uno nifer o'i rhaglenni arian grant ar wahân ar gyfer gwasanaethau cynghori i greu Cronfa Gynggori Sengl.

ARIAN GRANT – DIBEN

6. Ni fydd y Gronfa Gynggori Sengl yn rhoi arian craidd i ddarparwyr cyngor. Bydd yn ariannu'r gwaith o ddarparu 'gwasanaethau gwybodaeth a chyngor am les cymdeithasol sydd am ddim i'r cleient', sy'n dangos sut y byddant yn **'sicrhau'r canlyniadau mwyaf effeithiol a chynaliadwy i'r rhai sy'n ceisio cyngor'** ac sy'n cyflwyno tystiolaeth o hynny.
7. Nod y Gronfa Gynggori Sengl yw cynnig cyfraniad cadarnhaol er mwyn helpu i fodloni'r galw cynyddol parhaus am wasanaethau cynghori a sicrhau bod mwy o bobl ledled Cymru yn cael y wybodaeth a'r cyngor sydd eu hangen arnynt.
8. Un o egwyddorion y gronfa yw y bydd y grant yn cefnogi'r darparwyr cyngor mwyaf effeithiol p'un a ydynt yn gweithredu yn y trydydd sector, yn y sector preifat neu mewn awdurdodau lleol.
9. Bydd y gwasanaethau gwybodaeth a chyngor ar les cymdeithasol a ddarperir gan y Gronfa Gynggori Sengl yn canolbwyntio ar hyrwyddo mynediad cynnar at gyngor yn effeithiol ymhlith y cartrefi sydd fwyaf agored i niwed a sicrhau bod pobl sy'n cael cyngor yn cael cyfle i wella eu gallu i wrthsefyll problemau lles cymdeithasol yn y dyfodol. Bydd y gronfa hefyd yn gwella mynediad at wasanaethau a all roi'r math o gyngor arbenigol sydd ei angen ar bobl i ddatrys problemau cymhleth sydd wedi hen ymsefydlu yn aml.
10. Caiff yr arian grant sydd ar gael ledled Cymru o'r Gronfa Gynggori Sengl ei ddyrannu ar sail anghenion a nodwyd ac yn unol â chanfyddiadau adroddiad Llywodraeth Cymru **'Modelu'r Angen am Gyngor ar Faterion Lles Cymdeithasol', (2017)**, a gomisiynwyd yn annibynnol.
11. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu darparu'r arian grant yn ystod y cyfnod rhwng **01 Ionawr 2020 a 31 Rhagfyr 2020**. O ystyried ein bod ar ddiwedd setliad ariannu presennol Llywodraeth Cymru, gallwn ond cynnig ymrwymiad grant am gyfnod o 12 mis ar hyn o bryd. Mae'n bosibl y gellid ymestyn yr arian grant i ymgeiswyr llwyddiannus y tu hwnt i'r cyfnod cychwynnol o 12 mis. Os bydd hyn yn digwydd, ceidw Llywodraeth Cymru yr hawl i ddiwygio disgwyliadau grant ar gyfer unrhyw gyfnod estynedig.
12. Hoffai Llywodraeth Cymru i ddarparwyr gyflwyno cynigion ar gyfer sut y byddent yn darparu Gwasanaethau Cynghori Rhanbarthol sy'n Canolbwyntio ar y Gymuned a/neu Wasanaethau Cynghori Arbenigol Rhanbarthol a/neu Wasanaeth Cynghori o Bell i Gymru Gyfan.

13. Dylai ceisiadau i ddarparu'r gwahanol fathau o wasanaeth fodloni'r gofynion sy'n berthnasol i'r math o wasanaeth a nodir eisoes a dangos sut y byddent yn integreiddio â'r gwasanaethau cynghori eraill a ariennir gan y Gronfa grant hon.

Gwasanaethau Cynghori sy'n Canolbwyntio ar y Gymuned

Gwasanaethau Cynghori sy'n Canolbwyntio ar y Gymuned: Bydd y gwasanaethau hyn yn gyfrifol am ddarparu pob math o wybodaeth a chynghor ar les cymdeithasol hyd at ac yn cynnwys cynghor cyffredinol â gwaith achos (Gweler Atodiad 1 am ddiffiniadau o fathau o Wybodaeth a Chynghor).

Bydd gan y gwasanaethau hyn ffocws clir ar atal ac ymateb ar frys mewn argyfwng, a gofynnir i ddarparwyr lunio modelau arloesol ar gyfer darparu gwasanaethau sy'n sicrhau bod gwasanaethau yn dra hysbys ac yn hygyrch ac y gallant hyrwyddo a thargedu mynediad cynnar at gynghor yn effeithiol ymhlith y cartrefi sydd fwyaf agored i niwed ledled Cymru.

Hefyd, gofynnir i ddarparwyr gynllunio gwasanaethau a fydd yn sicrhau bod pobl sy'n cael cynghor i ddatrys eu problemau lles cymdeithasol, yn cael cyfle, i'r graddau y bo'n ymarferol, drwy ddatblygu eu hymwybyddiaeth, eu sgiliau a'u gwybodaeth ac ati, i ddatblygu eu galluogrwydd a'u gallu i wrthsefyll unrhyw broblemau lles cymdeithasol sy'n codi yn y dyfodol.

Caiff y Gwasanaethau Cynghori sy'n Canolbwyntio ar y Gymuned eu darparu'n bennaf drwy wasanaethau wyneb yn wyneb. Fodd bynnag, yn eu cynigion ariannu, bydd darparwyr yn gallu argymhell dulliau ychwanegol o ddarparu gwasanaethau drwy sianelau eraill, megis dros y ffôn neu ar-lein, pan fydd y rhain yn diwallu anghenion penodol pobl sy'n ei chael hi'n anodd cael gafael ar wasanaethau wyneb yn wyneb yn well. Bydd hyn yn berthnasol yn benodol i ardaloedd gwledig, lle y gellir disgwyl y bydd cyfran uwch o wasanaethau yn cael eu darparu o bell, er mwyn galluogi mynediad eang a chadw cost cyflenwi yn fforddiadwy.

Disgwylir i gynigwyr gynnig modelau darparu gwasanaethau sy'n targedu'r rhai sydd â'r angen mwyaf gyntaf.

Yn ogystal â chynnig modelau darparu gwasanaethau sy'n sicrhau mynediad eang, disgwylir i gynigwyr ystyried sut y gall eu model darparu gwasanaethau dargedu gwasanaethau'n rhagweithiol at grwpiau o bobl y gall fod mwy o angen cynghor cyfreithiol cyffredinol am les cymdeithasol arnynt o ganlyniad i nodweddion penodol a all fod ganddynt neu o ganlyniad i'r amgylchiadau penodol y maent yn eu hwynebu. Nid yw Llywodraeth Cymru am fod yn rhy ragnodol ynghylch pa grwpiau a allai gael eu targedu ond gallent gynnwys, er enghraifft, bobl sy'n profi trais yn y cartref neu'r rhai sy'n byw â chyflwr meddygol cronig. Y gofyniad yw bod cynigwyr yn ystyried y rhai y mae angen cynghor arnynt fwyaf yn y rhanbarth perthnasol a chyflwyno cynigion sy'n

sicrhau y caiff mynediad ar gyfer y grwpiau hyn ei flaenoriaethu mewn unrhyw fodel darparu gwasanaethau. Pan fydd grwpiau penodol o bobl yn cael eu targedu, disgwylir i fodelau gwasanaethau ymgorffori a defnyddio arbenigedd sefydliadau sy'n arbenigo mewn cefnogi'r grwpiau penodol hynny o bobl.

O gofio pwysigrwydd ymdrin â llesiant cyffredinol drwy gyngor, bydd angen i gynigion hefyd ddangos sut y byddant yn cysylltu prosesau darparu gwasanaethau a phrosesau darparu gofal sylfaenol a gwasanaethau llesiant eraill yn y sector gwirfoddol a'r sector cymunedol mewn modd ystyrlon.

Er mwyn sicrhau bod cymaint o bobl â phosibl yn manteisio ar fudd-daliadau ledled Cymru, fel rhan o'u dulliau ataliol, anogir cynigwyr i gynnwys proses ar gyfer sicrhau bod gwiriadau budd-daliadau ar gael i bawb sy'n ceisio cyngor lles cymdeithasol gan unrhyw wasanaeth sy'n derbyn grant.

Bydd angen i gynnig ariannu esbonio sut y bydd y Gwasanaeth Cyngori sy'n Canolbwyntio ar y Gymuned yn ategu gwasanaethau cyngori eraill sydd ar gael yn lleol ac yn genedlaethol.

Ardal – Rhanbarthau Cymru

Caiff y Gwasanaethau Cyngori sy'n Canolbwyntio ar y Gymuned eu cynllunio a'u darparu yn rhanbarthol a gofynnir i gynigwyr esbonio sut y bydd eu model darparu gwasanaethau arfaethedig yn cydgysylltu'r gwaith o ddarparu gwasanaethau mewn ardaloedd awdurdod lleol unigol mewn rhanbarth yn effeithiol ac yn sicrhau y caiff gwasanaethau eu darparu yn unol ag anghenion cymunedau lleol ledled y rhanbarth.

Bydd cynigwyr yn gallu gwneud cais am arian mewn perthynas ag un neu fwy o'r rhanbarthau a nodwyd, er bod **rhaid cwblhau Ffurflen Gais am Grant ar wahân ar gyfer pob cynnig ar gyfer Gwasanaeth Cyngori sy'n Canolbwyntio ar y Gymuned rhanbarthol.**

Yr Arian sydd Ar Gael

Bydd yn ofynnol i gynigiwr gyflwyno proffil o wariant cyllidebol sy'n dangos sut mae'n bwriadu defnyddio'r arian i ddarparu'r gwasanaethau gwybodaeth a chyingor gofynnol ar gyfer cyfnod y grant.

Uchafswm yr Arian sydd ar Gael	2019/20 £	2020/21 £	Cyfanswm
	Gwasanaethau Cynghori sy'n Canolbwyntio ar y Gymuned	Gwasanaethau Cynghori sy'n Canolbwyntio ar y Gymuned	
Rhanbarth 1	£132,250	£396,751	£529,001
Rhanbarth 2	£131,937	£395,810	£527,747
Rhanbarth 3	£211,014	£633,043	£844,057
Rhanbarth 4	£180,171	£540,513	£720,684
Rhanbarth 5	£122,440	£367,321	£489,761
Rhanbarth 6	£117,438	£352,313	£469,751
			£3,581,001

Gwasanaethau Cynghori Arbenigol

Gwasanaethau Cynghori Arbenigol: Bydd y gwasanaethau hyn yn sicrhau y gall pobl gael gafael ar y cyngor a'r cymorth arbenigol, gan gynnwys gwasanaethau cynrychioli mewn tribiwnlys a/neu yn y Llys, sydd eu hangen arnynt i herio penderfyniadau anghywir. Bwriedir i'r grant hwn ariannu gwasanaethau cynghori arbenigol sy'n rhoi cyngor ar hawliau'n ymwneud â budd-daliadau, dyled, tai, cyflogaeth a gwahaniaethu (gan gynnwys addysg) yn unig.

Gofynnir i gynigwyr lunio modelau darparu gwasanaethau a all gynnig gwasanaethau cynghori arbenigol integredig, lle y gall unigolyn gael gafael ar gyngor arbenigol ar amrywiaeth o broblemau lles cymdeithasol cyfreithiol yn ddi-dor. Er enghraifft, yn aml bydd gan unigolyn sydd â dyledion problemus ac sy'n wynebu achos llys sy'n cael ei ddwyn gan eu credydwy, problemau lles cymdeithasol cyfreithiol eraill y bydd angen eu datrys.

Disgwylir i Wasanaethau Cynghori Arbenigol rhanbarthol gael eu darparu'n bennaf drwy wasanaethau wyneb yn wyneb. Fodd bynnag, yn eu cynigion ariannu, bydd cynigwyr yn gallu argymhell dulliau ychwanegol o ddarparu gwasanaethau drwy sianelau eraill, megis dros y ffôn neu ar-lein, pan fydd y

rhain yn diwallu anghenion penodol pobl sy'n ei chael hi'n anodd cael gafael ar wasanaethau wyneb yn wyneb yn well. Bydd hyn yn berthnasol yn benodol i ardaloedd gwledig, lle y gellir disgwyl y bydd cyfran uwch o wasanaethau yn cael eu darparu o bell, er mwyn galluogi mynediad eang a chadw cost cyflenwi yn fforddiadwy.

Fodd bynnag, bydd angen i unrhyw gynigion i ddarparu gwasanaethau yn rhannol drwy sianelau ychwanegol sicrhau nad ydynt yn dyblygu gwasanaethau o bell a ariennir naill ai o dan y rhaglen grant hon neu o dan ffrydiau ariannu eraill, sy'n cynnwys gwasanaethau cyngor am les cymdeithasol a ddarperir o bell i'r DU gyfan.

Disgwylir i gynigwyr gynnig modelau darparu gwasanaethau sy'n targedu'r rhai sydd â'r angen mwyaf gyntaf.

Mae'n rhaid gwario cyfran o'r arian hwn (a nodir yn y tabl isod) ar ddarparu gwasanaethau arbenigol sy'n rhoi cyngor ar ddyledion. Y rheswm am hyn yw bod yr arian hwn wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru drwy'r Corff Canllawiau Ariannol Sengl. Mae'n dod o ardoll ar y diwydiant gwasanaethau ariannol a bwriedir iddo gynorthwyo pobl mewn dyled.

Yn ogystal â sicrhau mynediad eang, disgwylir i gynigwyr ystyried sut y gall eu model darparu gwasanaethau dargedu gwasanaethau'n rhagweithiol at grwpiau o bobl y gall fod mwy o angen cyngor cyfreithiol arbenigol am les cymdeithasol arnynt o ganlyniad i nodweddion penodol a all fod ganddynt neu o ganlyniad i'r amgylchiadau penodol y maent yn eu hwynebu. Nid yw Llywodraeth Cymru am fod yn rhy ragnodol ynghylch pa grwpiau a allai gael eu targedu ond gallent gynnwys, er enghraifft, bobl sy'n profi trais yn y cartref neu'r rhai sy'n byw â chyflwr meddygol cronig. Y gofyniad yw bod cynigwyr yn ystyried y rhai y mae angen cyngor arnynt fwyaf yn y rhanbarth perthnasol a chyflwyno cynigion sy'n sicrhau y caiff mynediad ar gyfer y grwpiau hyn ei flaenoriaethu mewn unrhyw fodel darparu gwasanaethau. Pan fydd grwpiau penodol o bobl yn cael eu targedu, disgwylir i fodelau gwasanaethau ymgorffori a defnyddio arbenigedd sefydliadau sy'n arbenigo mewn cefnogi'r grwpiau penodol hynny o bobl.

O gofio pwysigrwydd ymdrin â llesiant cyffredinol drwy gyngor, bydd angen i gynigion hefyd ddangos sut y byddant yn cysylltu prosesau darparu gwasanaethau a phrosesau darparu gofal sylfaenol a gwasanaethau llesiant eraill yn y sector gwirfoddol a'r sector cymunedol mewn modd ystyrlon.

Er mwyn sicrhau bod cymaint o bobl â phosibl yn manteisio ar fudd-daliadau ledled Cymru, fel rhan o'u dulliau ataliol, anogir cynigwyr i gynnwys proses ar gyfer sicrhau bod gwiriadau budd-daliadau ar gael i bawb sy'n ceisio cyngor lles cymdeithasol gan unrhyw wasanaeth sy'n derbyn grant.

Bydd cynnig ariannu yn esbonio sut y bydd ei Wasanaeth Cyngtori Arbenigol Rhanbarthol yn ategu gwasanaethau cyngtori eraill sydd ar gael yn lleol ac yn genedlaethol.

Ardal – Rhanbarthau Cymru

Caiff y Gwasanaethau Cyngtori Arbenigol eu cynllunio a'u darparu yn rhanbarthol a gofynnir i gynigwyr esbonio sut y bydd eu model darparu gwasanaethau arfaethedig yn cydgysylltu'r gwaith o ddarparu gwasanaethau yn yr ardaloedd awdurdod lleol unigol yn effeithiol ac yn sicrhau y caiff gwasanaethau eu darparu yn unol ag anghenion cymunedau lleol ledled y rhanbarth.

Bydd cynigwyr yn gallu gwneud cais mewn perthynas ag un neu fwy o'r rhanbarthau a nodwyd, er bod **rhaidd cwblhau Ffurflen Gais am Grant ar wahân ar gyfer pob cynnig ar gyfer Gwasanaeth Cyngtori Arbenigol rhanbarthol.**

Yr Arian sydd Ar Gael

Bydd yn ofynnol i gynigiwr gyflwyno proffil o wariant cyllidebol sy'n dangos sut mae'n bwriadu defnyddio'r arian i ddarparu'r gwasanaethau cyngtori gofynnol ar gyfer cyfnod y grant.

Uchafswm yr Arian sydd ar Gael	2019/20 £	2020/21 £	Cyfanswm
	Gwasanaethau Cyngtori Arbenigol	Gwasanaethau Cyngtori Arbenigol	
Rhanbarth 1	£110,964 (*£71,587)	£332,893 (*£214,760)	£443,857 (*£286,347)
Rhanbarth 2	£110,630 (*£71,371)	£331,891 (*£214,114)	£442,521 (*£285,485)
Rhanbarth 3	£178,115 (*£114,908)	£534,344 (*£344,723)	£712,459 (*£459,631)
Rhanbarth 4	£151,013 (*£97,424)	£453,040 (*£292,271)	£604,053 (*£389,695)
Rhanbarth 5	£106,207 (*£68,518)	£318,620 (*£191,079)	£424,827 (*£259,597)
Rhanbarth 6	£98,729 (*£63,693)	£296,186 (*£191,079)	£394,915 (*£254,772)

				£3,022,632 (*£1,935,527)
(* Lleiafysymiau y mae'n rhaid eu gwario ar wasanaethau sy'n rhoi cyngor arbenigol ar ddyledion er mwyn cyflawni rhwymedigaethau o ran talwyr yr ardoll.) <u>Gwasanaeth Cyngori o Bell i Gymru Gyfan</u> Gwasanaeth Cyngor o Bell Cymru Gyfan: Bydd y gwasanaeth hwn yn sicrhau y gall pobl gael gafael ar y cyngor a'r cymorth arbenigol drwy sianelau o bell (a ddylai gynnwys y ffôn ac e-bost). Bwriedir i'r grant hwn ariannu gwasanaethau cyngori arbenigol o bell sy'n rhoi cyngor hawliau'n ymwneud â budd-daliadau, dyled, tai, cyflogaeth a gwahaniaethu (gan gynnwys addysg). Cydnabyddir y bydd gwasanaethau cyngori o bell, oherwydd eu natur, fel arfer yn gwneud mwy o waith untro neu waith ymchwilio nag y mae gwasanaethau cyngori arbenigol wyneb yn wyneb yn ei wneud fel arfer. Gan dderbyn hyn, bwriedir i'r grant hwn ariannu Gwasanaeth Cyngori o Bell integredig i Gymru Gyfan sy'n rhoi cyngor ar lefel arbenigol ac a all ddarparu gwasanaeth gwaith achos llawn o bell, pan fydd hynny er budd y cleient. Ardal – Cymru Gyfan Caiff Gwasanaeth Cyngori o Bell Cymru Gyfan ei gynllunio a'i ddarparu ledled Cymru a gofynnir i gynigwyr esbonio sut y bydd eu model darparu gwasanaethau yn cysylltu â'r Gwasanaethau Cyngori sy'n Canolbwyntio ar y Gymuned rhanbarthol a'r Gwasanaethau Cyngori Arbenigol rhanbarthol ac yn eu hategu. Er enghraifft, nodi sut y bydd darparwr sy'n delio â'r cyswllt cyntaf yn sicrhau bod unigolyn yn cael cynnig mynediad uniongyrchol at wasanaethau gweithiwr achos wyneb yn wyneb pan fydd angen. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i gael cynigion ar gyfer gwasanaeth dros y ffôn i Gymru gyfan sydd ar gael drwy ffonio un rhif ffôn ac sy'n galluogi'r unigolyn sy'n ffonio i gael y cyngor penodol sydd ei angen arno ar frys yn gyflym. Er mwyn sicrhau bod cymaint o bobl â phosibl yn manteisio ar fudd-daliadau ledled Cymru, fel rhan o'u dulliau ataliol, anogir cynigwyr i gynnwys proses ar gyfer sicrhau bod gwiriadau budd-daliadau ar gael i bawb sy'n ceisio cyngor lles cymdeithasol o unrhyw fath. Bydd cynnig ariannu yn esbonio sut y bydd ei Wasanaeth Cyngori o Bell i Gymru Gyfan yn ategu gwasanaethau cyngor am les cymdeithasol o bell sydd ar gael yn genedlaethol, a ddylai gynnwys y rhai sy'n darparu gwasanaethau i'r DU gyfan.				

Yr Arian sydd Ar Gael

Bydd yn ofynnol i gynigiwr gyflwyno proffil o wariant cyllidebol sy'n dangos sut mae'n bwriadu defnyddio'r arian i ddarparu'r Gwasanaeth Cyngori o Bell i Gymru Gyfan sydd ei angen ar gyfer cyfnod y grant.

Nodir isod ddadansoddiad o'r arian sydd ar gael ar gyfer y gwasanaeth hwn:

Uchafswm yr Arian sydd ar Gael	2019/20 £	2020/21 £	Cyfanswm
	Gwasanaethau Cyngori o Bell Cymru Gyfan	Gwasanaethau Cyngori o Bell Cymru Gyfan	
Cymru Gyfan	£360,404	£1,081,212	£1,441,616

Mae'n rhaid cwblhau Ffurflen Gais am Grant ar wahân ar gyfer Gwasanaeth Cyngori o Bell Cymru Gyfan.

PRYD I WNEUD CAIS

11. Cyhoeddwyd y ffurflen gais i wneud cais am arian grant gan Lywodraeth Cymru ddydd Mercher **24 Ebrill 2019** a'r terfyn amser ar gyfer ceisiadau yw **5pm ddydd Mawrth 16 Gorffennaf 2019**.
12. Ni dderbynnir ceisiadau hwyr.
13. Y terfyn amser ar gyfer derbyn unrhyw gwestiynau am y grant fydd 5pm dydd Mawrth **18 Mehefin 2019**. Cyhoeddir rhestr o'r ymtebion i'r holl gwestiynau ar wefan Llywodraeth Cymru [yma](#) a chaiff ei diweddaru'n rheolaidd. Dylid cyflwyno cwestiynau drwy FinancialInclusion@llyw.cymru. Dylai partïon â diddordeb sy'n gofyn cwestiynau wneud hynny gan wybod y caiff eu cwestiwn a'r ymateb iddo eu cyhoeddi.

PWY ALL WNEUD CAIS

14. Gall ceisiadau am yr arian gael eu cyflwyno gan ddarparwr cyngor unigol neu nifer o ddarparwyr ar y cyd, er y rhagwelir y bydd darparwyr sy'n cyflwyno ceisiadau ar y cyd yn gallu dangos yn well sut y byddant yn diwallu'r ystod lawn o anghenion cyngor cymunedau amrywiol Cymru.

15. Mae Cronfa Gyngori Sengl Llywodraeth Cymru yn gynllun cystadleuol a dim ond un cais cydweithredol ym mhob un o'r 13 o gyfleoedd grant y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei gefnogi. Os na cheir unrhyw geisiadau mewn perthynas ag unrhyw gyfle penodol sy'n cyflawni nodau ac yn bodloni gofynion y grant yn llawn ac yn ddigonol, ceidw Llywodraeth Cymru yr hawl i gefnogi mwy nag un cais pan fyddai gwneud hynny yn arwain at wasanaethau cyfunol sy'n cyflawni nodau ac yn bodloni gofynion y grant.
16. Disgwylir i geisiadau unigol nodi cynigion sydd, ar y cyfan, yn defnyddio'r holl arian sydd ar gael ar gyfer pob un o'r 13 o gyfleoedd grant.
17. Mae'n rhaid i gais cydweithredol am arian nodi darparwr arweiniol. Bydd y darparwr hwn yn derbyn y cyfrifoldeb cytundebol am ddarparu'r gwasanaethau a ariennir gan y grant.
18. Mae'n rhaid i gais hefyd gynnwys manylion llawn pob un o'r partneriaid eraill a fydd yn rhan o'r gwaith o ddarparu'r gwasanaethau a ariennir ar y cyd.
19. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i sicrhau bod pobl Cymru yn gallu cael gafael ar wasanaethau gwybodaeth a chyngor gyda sicrwydd ansawdd. Yn unol â'r ymrwymiad hwn, mae'n rhaid i ddarparwr, mewn cais unigol neu gydweithredol am arian a fydd yn chwarae rhan yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau cynghori cyffredinol neu arbenigol ar les cymdeithasol yn uniongyrchol i bobl, ar ddyddiad dechrau'n cyfnod ariannu, feddu ar Safon Ansawdd cyngor gydnabyddedig ar lefel briodol ar gyfer y gwasanaeth y mae'n bwriadu ei ddarparu.

Mae Safonau Ansawdd cyngor derbyniol yn cynnwys y safonau ansawdd canlynol, ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt:

Safon Gwybodaeth Hygyrch (GIG Lloegr)
 Safon Ansawdd Cyngor
 Rhaglen Ansawdd AgeUK ar gyfer Gwybodaeth a Chyngor
 Cynllun Aelodaeth Cyngor ar Bopeth
 Cod Aelodaeth Cymdeithas Safonau Rheolwyr Dyled
 Cod Aelodaeth Fforwm Datrys Dyled
 Gwobr Ansawdd Teuluoedd yn Gyntaf
 Buddsoddwyr mewn Pobl
 ISO9000
 Lexcel
 Fframwaith Ansawdd y Gwasanaeth Cyngor Ariannol (SFGB)
 Safon Matrics ar gyfer Gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chanllawiau
 Safonau Gwasanaeth Cenedlaethol Rape Crisis
 Cod Safonau OISC
 Safonau Shelter
 Marc Ansawdd Arbenigol (SQM)
 Safon Cymdeithasau Llinellau Cymorth ar gyfer y Ffôn

20. Yn ogystal â meddu ar Safon Ansawdd cyngor gydnabyddedig, bydd angen i ddarparwr, a fydd yn chwarae rhan yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau **cyngor ar ddyled** yn uniongyrchol i bobl, gael ei reoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, neu fod wedi'i eithrio rhag cael ei reoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Arianno, h.y. awdurdod lleol.
21. Nid oes angen i ddarparwr nad yw ei rôl yn cynnwys rhoi cyngor cyffredinol nac arbenigol yn uniongyrchol i bobl, feddu ar Safon Ansawdd cyngor. Er enghraifft, bydd hyn yn cynnwys:
- a. *partner nad yw'n rhoi cyngor*, y mae ei rôl, o fewn cais cydweithredol, yn cynnwys cydgysylltu a/neu reoli'r gwaith o ddarparu'r gwasanaethau gwybodaeth a chyngor a ariennir yn lleol, yn rhanbarthol neu i Gymru gyfan neu;
 - b. darparwr y mae ei rôl o fewn cais cydweithredol yn cynnwys hwyluso ymgysylltu cadarnhaol â phobl/grwpiau sydd fwyaf anodd eu cyrraedd a/neu ddarparu gwybodaeth/cyngor ar faterion lles cymdeithasol a'i gwneud yn bosibl i unigolyn gael ei atgyfeirio'n ddidrafferth at bartner sy'n rhoi cyngor, ac ati.
22. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu i'r grant hwn ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau cynghori rheng flaen. O fewn cynnig ariannu cydweithredol, mae'n **rhaidd** i *partner nad yw'n rhoi cyngor*, y mae ei rôl yn cynnwys cydgysylltu a/neu reoli'r gwaith o ddarparu'r gwasanaethau a ariennir yn lleol, yn rhanbarthol neu i Gymru gyfan, yn sefydliad Nid er Elw ac a all ddarparu tystiolaeth o'r canlynol:
- a. ei hanes sefydledig a llwyddiannus o gydgysylltu'r gwaith o ddarparu gwasanaethau gwybodaeth a chyngor a;
 - b. bod ganddo ddealltwriaeth gynhwysfawr o'r Sector Cyngor ar Les Cymdeithsaol yng Nghymru.

LLENWI'R FFURFLEN GAIS

1. Lluniwyd y canllawiau hyn er mwyn helpu i sicrhau bod y rhai sy'n gwneud cais am arian grant yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei angen i asesu eu cais.
2. Ni chaiff ceisiadau anghyflawn eu hasesu ac, felly, ni chânt eu hystyried ar gyfer grant.

Adran Un – Yr Hyn Rydych yn Gwneud Cais Amdano

Mae'n ofynnol i gynigiwr nodi p'un o'r 13 o gyfleoedd ariannu y mae'r ffurflen gais benodol yn ymwneud ag ef drwy nodi'r blwch perthnasol. Dylai cynigwyr sy'n gwneud cais am fwy nag un o'r 13 o gyfleoedd grant lenwi ffurflen gais ar wahân mewn perthynas â phob cyfle.

Adran Dau – Manylion y Sefydliad/Darparwr Arweiniol

Mewn cais cydweithredol (lle y bydd darparwyr sy'n bartneriaid yn darparu'r gwasanaeth), mae'n ofynnol i'r Sefydliad Arweiniol nodi ei fanylion cyswllt llawn yn Adran Dau.

Adran Tri – Darparwyr sy'n Bartneriaid (Ceisiadau Cydweithredol yn Unig)

Dim ond os yw'n gais cydweithredol y dylid llenwi'r adran hon. Mae'n gofyn am wybodaeth am y darparwr arall/darparwyr eraill a fydd yn cymryd rhan yn y gwaith o ddarparu'r gwasanaethau arfaethedig a fydd yn cael arian grant.

Adran Pedwar – Sicrhau Ansawdd

Mae'n ofynnol i unrhyw ddarparw(y)r sy'n gwneud cais am arian i ddarparu gwasanaeth cynghori cyffredinol neu arbenigol ddarparu'r canlynol:

- a. tystiolaeth o'r Safon Ansawdd cyngor sydd ganddo (ganddynt) a chadarnhau'r dyddiad y bydd yn rhaid iddo (iddynt) gyflwyno cais newydd am y Safon Ansawdd cyngor hon; and
- b. datganiad i gadarnhau ei fod (eu bod) yn ddiuedd a'i fod (eu bod) yn gallu gweithredu bob amser er budd y bobl a fydd yn cael y gwasanaethau cynghori a ariennir sydd am ddim i'r cleient. and

- c. os bydd darparwr yn darparu gwasanaeth cyngori ar ddyled, dystiolaeth ei fod yn cael ei reoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, neu gadarnhad ei fod wedi'i eithrio rhag cael ei reoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol.

Adran Pump – Y Dyddiad y Disgwylir i'r Gwasanaeth Ddechrau

Mae'n ofynnol i gynigiwr gadarnhau y gall dechrau darparu'r gwasanaethau gwybodaeth a chyngor a ariennir sydd am ddim i'r cleient o 01 Ionawr 2020 ymlaen.

Adran Chwech – Y Gwasanaeth Arfaethedig

Mae'n ofynnol i gynigiwr ymateb i gyfres o gwestiynau am sut y bydd y gwasanaeth y mae'n bwriadu ei ddarparu yn cyflawni diben y Grant.

Sgorio

Bydd y broses asesu yn cynnwys system sgorio wedi'i phwysoli. Pan fydd cwestiwn yn cael ei sgorio, nodir pwysoliad y sgôr berthnasol ar ôl y cwestiwn. Ceir crynodeb o bwysoliad y pwyntiau isod:

Cwestiwn	Y Sgôr Uchaf Bosibl
1. Profiad Blaenorol	20
2. Y Model Darparu Gwasanaeth Arfaethedig	25
3. Cynllunio a Chydgyssylltu'r Gwasanaeth	25
4. Y Gymraeg ac Ieithoedd Cymunedol	5
5. Gwasanaethau sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn	10
6. Gwerth am Arian	15
Cyfanswm y Sgoriau Uchaf Posibl	100

Cwestiwn 1 – Profiad Blaenorol

Mae'r cwestiwn hwn yn gofyn am esboniad o brofiad a gallu profedig darparw(y)r i ddarparu gwasanaethau gwybodaeth a chyngor ar les cymdeithasol sy'n seiliedig ar hawliau ac sydd am ddim i'r cleient yn lleol, yn genedlaethol neu i Gymru gyfan (fel y bo'n gymwys). Mewn cais cydweithredol, mae hyn yn ymestyn i bob un o'r darparwyr gwasanaeth a fydd yn derbyn rhan o'r grant hwn. Os bydd cais cydweithredol yn cynnwys darparwyr gwasanaeth nad ydynt yn rhoi cyngor ond a all, er enghraifft, hwyluso ymgysylltu neu gyflawni swyddogaeth arall, dylech hefyd roi esboniad

o unrhyw brofiad perthnasol sy'n ymwneud â'r swyddogaeth honno yn eich ymateb i'r cwestiwn hwn.

Gofynnir i gynigwyr hefyd esbonio eu profiad blaenorol o gymryd rhan mewn modelau darparu gwasanaethau cydweithredol.

Cwestiwn 2 – Darparu Gwasanaethau

Mae'r gyfres hon o gwestiynau yn edrych ar y ffordd y bydd y gwasanaeth(au) gwybodaeth a/neu gyngor ar les cymdeithasol sy'n seiliedig ar hawliau ac sydd am ddim i'r cleient y bwriedir eu darparu yn cyflawni nodau allweddol y Gronfa Gyngori Sengl, gan gynnwys sut y bydd model darparu gwasanaethau arfaethedig yn:

- i. *Integredig*: Bod yn ddi-dor ac yn gwbl integredig ar gyfer pobl sydd, er enghraifft, ag anghenion cyngor:
 - ym mhob un o feysydd pwnc lles cymdeithasol, a/neu;
 - sy'n symud o un math o gyngor i fathau eraill, h.y., canllawiau i gyngor cyffredinol i gyngor arbenigol, a/neu;
 - os yw'n gymwys, sydd wedi cysylltu â gwasanaeth Cymru gyfan ac y mae angen iddynt gael gafael ar wasanaethau a ddarperir yn lleol/rhanbarthol.

Cydnabyddir na fydd cynigwyr yn gwybod pa wasanaethau eraill a allai fod yn cael eu darparu gydag arian o dan y grant hwn, gan y bydd pob un ohonynt yn destun yr ymarfer grant cystadleuol hwn. Fodd bynnag, disgwylir i gynigwyr nodi'n fras sut y byddant yn ceisio sicrhau y bydd y gwasanaeth a gynigir ganddynt yn gydgyssylltiedig â gwasanaethau cynghori eraill, y byddai llawer ohonynt yn cael eu hariannu drwy ffrydiau ariannu eraill. Disgwylir iddynt hefyd gadarnhau eu bod yn barod i integreiddio eu gwasanaeth yn llawn â gwasanaethu cynghori eraill a ariennir gan grant yn eu rhanbarth a ledled Cymru, ar ôl i'r cynigwyr llwyddiannus gael eu cyhoeddi a phan fydd y gwasanaethau yn cael eu sefydlu. Er mwyn hyrwyddo darparu gwasanaethau mewn ffordd gydgyssylltiedig ymhellach, disgwylir i gynigwyr gadarnhau eu bod yn barod i gyfrannu at unrhyw bartneriaethau rhwydwaith cyngor a sefydlir yn eu rhanbarthau eu hunain/yn genedlaethol ac ymgysylltu â nhw. Un o'r meysydd allweddol a archwilir drwy waith monitro grant rheolaidd fydd i ba raddau y mae gwasanaethau a ariennir wedi cael eu hintegreiddio'n effeithiol.

- ii. *Ataliol*: Canolbwyntio ar atal ac ymateb ar frys mewn argyfwng;
- iii. *Meithrin gallu*: Cael ei gynllunio er mwyn sicrhau bod pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gwybodaeth a chngor yn cael cyfleoedd pendant i

ddatblygu eu gwybodaeth, eu gallu a'u sgiliau er mwyn gwella, i'r graddau y bo'n ymarferol, eu gallu i wrthsefyll problemau tebyg sy'n codi eto.

- iv. *Hygyrch*: Yn achos gwasanaethau rhanbarthol, yn gallu mynd i galon cymunedau lleol, gan sicrhau bod y gwasanaethau a ariennir yn dra hysbys ac yn hygyrch NEU yn achos y gwasanaeth o bell i Gymru gyfan, yn gallu creu proffil digonol er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn dra hysbys ac yn hygyrch;
- v. *Holistaidd*: dangos cysylltiadau ystyrlon â darpariaeth gofal sylfaenol statudol a gwasanaethau llesiant eraill yn y sector gwirfoddol a'r sector cymunedol;
- vi. *Cynhwysol*: Targedu'r bobl neu'r grwpiau hynny y mae eu nodweddion neu eu hamgylchiadau yn golygu ei bod yn fwy tebygol mai nhw sydd angen cyngor fwyaf a'u hannog i gysylltu â'r gwasanaeth a ariennir yn gynnar, gan ddangos arloesedd wrth gyrredd pobl nad ydynt, o bosibl, yn defnyddio gwasanaethau cynghori prif ffrwdd fel arfer.

Cwestiwn 3 - Cynllunio a Chydgysylltu Gwasanaethau

Mae'r gyfres hon o gwestiynau yn edrych ar y canlynol:

- i. pa mor gadarn yw'r tybiaethau cynllunio a ddefnyddiwyd i ragfynegi nifer y bobl y disgwylir iddynt ddefnyddio'r gwasanaeth fel y'i nodir yn y tabl Disgwyliadau o ran Lleiafswm yr Achosion/Ymholiadau yng Nghwestiwn 6 o'r ffurflen gais;
- ii. pa mor effeithiol oedd y broses o gynllunio'r gwasanaeth gwybodaeth a chynghori o ran sicrhau bod y gwasanaeth(au) a ariennir yn ategu adnoddau'r gwasanaethau cynghori sydd eisoes yn gweithredu mewn rhanbarth a ledled Cymru, gan wneud cyfraniad cadarnhaol yn gyffredinol drwy wneud y defnydd gorau posibl o'r adnoddau sydd ar gael ac osgoi dyblygu ymdrech cymaint â phosibl;
- iii. caiff y gwaith o ddarparu gwasanaethau gwybodaeth a chynghori ei gydgysylltu er mwyn sicrhau bod mynediad cyfartal a chyson at y gwasanaeth(au) a ariennir ym mhob rhan o ranbarth neu, yn achos gwasanaeth i Gymru gyfan, bob rhan o'r wlad;
- iv. sut y bydd y broses o gynllunio'r gwasanaeth gwybodaeth a chynghori yn sicrhau y caiff y gwasanaeth a ariennir ei ddarparu yn unol ag anghenion penodol cymunedau lleol;

- v. sut y bydd system o adolygu ac arloesi yn sicrhau gwelliannau parhaus o ran effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd.

Cwestiwn 4 – Y Gymraeg ac Ieithoedd Cymunedol

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r gwasanaeth a ariennir gael ei gynnig drwy gyfrwng y Gymraeg i unrhyw unigolion sy'n nodi mai hon yw eu dewis iaith.

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau a ariennir gael cynnig gwasanaethau cyfieithu, ym mhob un o'r ieithoedd cymunedol, os bydd eu hangen arnynt.

Felly, bydd angen i gynigiwr nodi'n glir sut y bydd ei fodel darparu gwasanaeth arfaethedig yn sicrhau y bydd mynediad cyson a chyfartal i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau a ariennir sydd am wneud hynny drwy gyfrwng y Gymraeg, neu unrhyw un o'r ieithoedd cymunedol.

Cwestiwn 5 – Gwasanaethau sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn sy'n Cyfrannu at Les

Mae gan Lywodraeth Cymru weledigaeth i bobl Cymru gael eu gwasanaethu gan wasanaethau cynghori cynaliadwy gyda sicrwydd ansawdd sy'n darparu gwasanaethau sy'n grymuso pobl ac sy'n cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

Yn 2018 cyhoeddodd yr hen Wasanaeth Cynghori Ariannol gyfres o ganfyddiadau o weithgarwch ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau, unigolion nad oeddent yn defnyddio gwasanaethau a chynghorwyr dyledion. Gwnaed rhywfaint o'r gwaith cydgynhyrchu yng Nghymru ac fe'i cefnogwyd gan Lywodraeth Cymru am ei fod yn cyd-fynd â'r ffordd o feddwl sy'n seiliedig ar gynnwys' a nodir yn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn nad yw canfyddiadau'r ymchwil "Delivering a Vision For Debt Advice" wedi'u cyfyngu i'r enghreifftiau o'r hyn sy'n nodweddu gwasanaethau 'cyngor ar ddyled' arfer gorau a bod yr Egwyddorion Cyflawni a nodwyd yn y gwaith yn darparu sail ar gyfer darparu gwasanaeth gwybodaeth a chynghor ar les cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, waeth beth fo pwnc y cyngor. Gellir gweld yr ymchwil [yma](#).

Yn eu cynnig ariannu, gofynnir i gynigwyr nodi'r ffyrdd y bydd eu gwasanaeth arfaethedig yn gyfystyr â gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a fydd yn cyfrannu at lesiant, gan sicrhau y cyfeirir at y ffordd y bydd y gwasanaeth yn cydymffurfio â phob un o'r Egwyddorion Cyflawni canlynol:

- Grymuso

- ✓ Hyrwyddo agwedd 'gallu gwneud' ymhlith y rhai sy'n cael cyngor.
- ✓ Sicrhau bob pobl bob amser yn cael cyfle i wella eu sgiliau a'u gallu i ymdopi drwy eu hannog i wneud pethau yn annibynnol.
- Effeithlon
 - ✓ Cydnabod lle y gallai proses gael ei rheoli'n fwy effeithlon drwy gydbwyso anghenion ag adnoddau – e.e. drwy nodi cyfleoedd i arloesi.
- Hygyrch - o ran datblygu prosesau darparu gwasanaethau:
 - ✓ Cyflwyno gwybodaeth mor glir a syml â phosibl.
 - ✓ Sicrhau bod y gwasanaeth yn hawdd i'w gyrraedd a'i ddefnyddio – er enghraifft, drwy sicrhau ei fod yn hyblyg ac y gall amrywiaeth o bobl wahanol gysylltu ag ef e.e. drwy ddefnyddio nifer o sianelau i ddarparu'r gwasanaeth.
- Yn canolbwyntio ar y dyfodol
 - ✓ Sicrhau bod newid ac annibyniaeth hirdymor wrth wraidd y broses o roi cyngor.
 - ✓ Sicrhau bod y rhai sy'n cael cyngor yn ystyried eu hanghenion a'u nodau nawr ac yn y dyfodol.
- Cadarnhaol a Rhagweithiol
 - ✓ Sicrhau bod cyngor yn ddeniadol i ddarpar dderbynwyr drwy lunio cyngor fel cam gweithredu cadarnhaol.
 - ✓ Rhoi cymorth parhaus i dderbynwyr - cyngor am oes, nid dim ond ar adegau o argyfwng.
- Trylwyr a Phersonol
 - ✓ Bod yn ymchwiliol ac yn gyfannol wrth roi cyngor – gan gydnabod mai materion eraill sydd wrth wraidd y broblem dan sylw yn aml.
 - ✓ Mabwysiadu dull wedi'i deilwra o roi cyngor – gan gydnabod bod angen cydbwyso proffesiynoldeb â chyswllt mwy personol.

Yn ogystal â'r Egwyddorion Cyflawni hyn, dylai cynigwyr ddisgrifio sut y byddant yn sicrhau bod defnyddwyr y gwasanaeth yn cael eu cynnwys yn y broses barhaus o gynllunio ac ailgynllunio eu gwasanaeth.

Cwestiwn 6 – Gwerth am Arian

O dan y cwestiwn hwn, caiff ceisiadau eu sgorio er mwyn blaenoriaethu ceisiadau sy'n cynnig y gwerth gorau am arian yn gyffredinol. Yn benodol, caiff y wybodaeth a ddarperir am ddisgwyliadau o ran lleiafswm yr achosion/ymholiadau, y gost gyfartalog fesul cynghorydd cyfwerth ag amser llawn (CALI) a'r canlyniadau disgwylidig ei chyfuno i roi darlun cyffredinol o werth am arian a gaiff ei sgorio, hyd at uchafswm o 15 o bwyntiau.

i) Disgwyliadau o ran Lleiafswm yr Achosion/Ymholiadau

Mae'n ofynnol i gynigwr nodi ei ddisgwyliadau o ran lleiafswm yr achosion/ymholiadau y mae'n disgwyl ymdrin â nhw (ar gyfer cyfnod o 12 mis y grant).

Dylai cynigwyr nodi nifer yr ymholiadau a'r achosion yn ôl categori o bwnc a lefel y cyngor. Rydym yn sylweddoli y bydd darparwyr gwybodaeth a chynghor yn defnyddio diffiniadau gwahanol o ymholiadau ac achosion yn eu cofnodion. Er mwyn rhoi rhyw syniad o faint o waith y disgwylir iddo gael ei wneud yn y cynnig, byddem yn gofyn i gynigwyr gwblhau'r adran hon gan gyfeirio at y dehongliad canlynol fel y gellir asesu ceisiadau i weld a yw cwmplas y gwasanaeth yn briodol a sicrhau eu bod yn cynnig y gwerth am arian sy'n ofynnol.

Wrth 'ymholiad' rydym yn rhagweld darn untro ar wahân o waith gyda chartref sy'n ceisio cyngor neu wybodaeth lle mae cyfanswm yr holl amser a dreulir ar y gwaith hwnnw yn llai na 30 munud fel arfer.

Wrth 'achos' rydym yn golygu gwaith sydd fel arfer yn para cyfanswm o 30 munud neu fwy, a fydd yn golygu, o bosibl, fwy o waith cofnodi nag yn achos ymholiad ac a fyddai, fel arfer, yn cynnwys darparu cadarnhad ysgrifenedig o gyngor.

Os mai dim ond i bobl â nodweddion penodol neu bobl mewn sefyllfaoedd penodol y bydd rhai rhannau o'r gwasanaeth arfaethedig ar gael, dylai ymgeiswyr roi dadansoddiad o hyn mewn cromfachau ar ôl cyfanswm yr achosion neu'r ymholiadau, lle y bo'n gymwys.

Yn yr adroddiadau monitro sy'n ofynnol o dan y grant hwn, bydd hefyd yn ofynnol i ddarparwyr roi gwybodaeth am nifer y bobl y rhoddwyd cyngor iddynt, gan gynnwys cyfran y cleientiaid mynych, a nifer y problemau y rhoddwyd cyngor arnynt.

ii) Gwariant Arfaethedig y Grant

Gofynnir i gynigiwr nodi'n glir faint o arian Grant y mae'n gwneud cais amdano ar gyfer y cyfnod ariannu cyfan.

Disgwylir i gynigwyr gyflwyno cynigion sydd, ar y cyfan, yn defnyddio'r holl arian sydd ar gael ar gyfer y cyfle ariannu penodol y maent yn gwneud cais amdano.

Mae uchafswm yr arian sydd ar gael i ddarparu'r gwasanaeth gwybodaeth a chyingor ym mhob cyfle ariannu fel y'i nodir isod, ynghyd â chyfansymiau rhanbarthol a chenedlaethol a chyfansymiau rhaglenni:

Uchafswm yr Arian sydd ar Gael	2019/20 £		2020/21 £		Cyfansw m grant
	Y gymuned Cynggori sy'n Canolbwyntio ar y Gymuned	Gwasanaethau Cynggori Arbenigol	Gwasanaethau Cynggori sy'n Canolbwyntio ar y Gymuned	Gwasanaethau Cynggori Arbenigol	
Rhanbarth 1	£132,250	£110,964 (*£71,587)	£396,751	£332,893 (*£214,760)	£972,858
Rhanbarth 2	£131,937	£110,630 (*£71,371)	£395,810	£331,891 (*£214,114)	£970,268
Rhanbarth 3	£211,014	£178,115 (*£114,908)	£633,043	£534,344 (*£344,723)	£1,556,5 16
Rhanbarth 4	£180,171	£151,013 (*£97,424)	£540,513	£453,040 (*£292,271)	£1,324,7 37
Rhanbarth 5	£122,440	£106,207 (*£68,518)	£367,321	£318,620 (*£191,079)	£914,588
Rhanbarth 6	£117,438	£98,729 (*£63,693)	£352,313	£296,186 (*£191,079)	£864,666
Cyfanswm:	£895,250	£755,658	£2,685,751	£2,266,973	£6,603,6 32
Gwasanaeth o bell Cymru gyfan		£360,404		£1,081,212	£1,441,6 16
Cyfanswm:	£895,250	£1,116,062	£2,685,751	£3,348,185	£8,045,2 48

* Y lefel ofynnol o arian y mae'n rhaid ei neilltuo i gyngor ar ddyledion o ganlyniad i amodau ardoll y diwydiant gwasanaethau ariannol (a drafodir yn yr adran sy'n ymdrin â Gwasanaethau Cyngori Arbenigol uchod).

Mae'n ofynnol i gynigiwr gwblhau'r proffil o wariant a rhoi dadansoddiad manwl o'r gwariant arfaethedig yn y daenlen wariant ymgorfforedig. Dylai cynigwyr gynnwys cymaint o wybodaeth â phosibl er mwyn dangos sut y caiff yr arian grant y gofynnir amdano ei ddefnyddio i ddarparu'r gwasanaethau gwybodaeth a chynghor ym mhob blwyddyn ariannol dros y cyfnod ariannu sy'n para 12 mis.

Mae rhywfaint o fformiwlâ wedi'i chynnwys yn y daenlen er mwyn cynorthwyo ymgeiswyr. Fodd bynnag, y cynigiwr sy'n gyfrifol am gadarnhau bod yr holl fanylion a ddangosir ar y taenlenni yn gywir, yn enwedig pan ychwanegir llinellau ychwanegol a gall fod angen addasu fformiwlâu.

Mae Llywodraeth Cymru yn annog darparwr sy'n gwneud cais am arian grant i gynnig cyflogau sy'n cyfateb i'r Cyflog Byw neu sy'n uwch nag ef. Os bydd unrhyw gyflogau a nodir yng nghynnig cynigiwr yn is na'r Cyflog Byw, byddwn yn awyddus i drafod â'r cynigiwr unrhyw ffyrdd y gallwn ei helpu i allu cynnig cyflogau sy'n cyfateb i'r Cyflog Byw neu sy'n uwch nag ef. Mae rhagor o wybodaeth am y Cyflog Byw ar gael yn <https://www.livingwage.org.uk/>.

Nodiadau pwysig

1. Er nad yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu nodi cyfanswm cost gyfartalog ddisgwyliedig gwasanaeth cynghorwyr cyffredinol ac arbenigol CALI, bydd cyfanswm y gost gyfartalog fesul cynghorydd yn benderfynnydd pwysig wrth asesu **i)** a yw'r gost gyfartalog yn ddigonol i roi hyder bod gwasanaethau o ansawdd uchel yn debygol o gael eu darparu a **ii)** bod y gost gyfartalog yn ddigon cystadleuol i sicrhau bod y gwasanaeth a ariennir yn cael yr effaith gymdeithasol fwyaf posibl.
2. Cyfrifir cyfanswm y gost gyfartalog fesul cynghorydd drwy rannu cyfanswm costau'r cynnig â nifer y cynghorwyr arfaethedig. Ystyrir bod gweithiwr Cyfwerth ag Amser Llawn (CALI) yn gweithio 37 awr yr wythnos. Os nad yw hyn yn wir, dylai ymgeiswyr adio nifer yr oriau a weithir gan y cynghorwyr arfaethedig at ei gilydd a rhannu'r cyfanswm â 37 i roi ffigur CALI.
3. Mae Llywodraeth Cymru am i gymaint o'r grant hwn â phosibl ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau cynghori rheng flaen. Dylid cadw costau sy'n gysylltiedig â chydgyssylltu gwahanol wasanaethau ac â

chonsortia yn gyffredinol i'r lefel isaf posibl sydd ei hangen i sicrhau prosesau darparu gwasanaethau ac adrodd integredig effeithiol.

4. Bydd Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo rhesymoldeb unrhyw Daliadau rheoli/Costau canolog y gofynnir amdanynt.
5. Ni fydd Llywodraeth Cymru yn cyfrannu'n ariannol at unrhyw gostau diswyddo.
6. Os bydd cynigiwr yn llwyddiannus mewn perthynas â mwy nag un o'r 13 o gyfleoedd grant sydd ar gael, byddai Llywodraeth Cymru yn disgwyl iddo allu dangos yn glir yr arbedion effeithlonrwydd a sicrheir ganddo drwy ddarparu mwy nag un gwasanaeth. Os bydd hyn yn digwydd, bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal trafodaethau pellach â chynigwyr ynghylch arbedion y gellir eu gwneud o ganlyniad i arbedion maint sy'n deillio o reoli'r prosiect, gwaith gweinyddu neu waith i oruchwylio costau staff yn dechnegol, ac ati, cyn cadarnhau unrhyw ddyfarniad grant.

iii) Disgwyliadau o'r Canlyniadau a Monitro

Mae'n ofynnol i gynigiwr ddarparu gwybodaeth am y mesurau perfformiad allweddol y mae'n bwriadu adrodd arnynt ac esbonio sut y bydd y mesurau perfformiad yn dangos i Lywodraeth Cymru fod y gwasanaeth gwybodaeth a chynghori y mae'n bwriadu ei ddarparu yn cyflawni nodau allweddol y Gronfa Gyngori Sengl.

Bydd hefyd yn ofynnol i gynigiwr gadarnhau, os bydd yn cael arian, y bydd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu mesurau perfformiad a mesurau canlyniadau ychwanegol a chytuno arnynt ar y cyd.

Adran Saith – y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

Mae'n rhaid i bob darparwr gadarnhau ei fod yn deall ac yn derbyn yr amodau canlynol ac y bydd yn cydymffurfio â nhw:

- Mae'n rhaid i bob dyfarniad arian grant gydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).
- Bydd angen i unrhyw wybodaeth bersonol a gaiff ei chasglu a'i chadw gan ddarparwr a ariennir gael ei thrin yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

- Er mwyn cyflawni dibenion y grant bydd yn ofynnol i ddarparwr a ariennir brosesu data personol ar ran Llywodraeth Cymru.
- Llywodraeth Cymru fydd y Rheolydd Data a'r darparw(y)r llwyddiannus fydd y prosesydd data.
- Fel prosesydd data, dim ond data sy'n angenrheidiol ac yn berthnasol i ddiben y prosiect hwn y dylai darparw(y)r ofyn amdanynt, a dim ond pan fo rheswm cyfreithiol penodol dros wneud hynny y dylai (dylent) gasglu data.

Wrth gwblhau Atodiad A, bydd cynigiwr yn nodi pa eitemau o ddata personol y bydd yn eu casglu wrth ddarparu'r gwasanaeth arfaethedig. Os bydd cwestiwn yn codi ynghylch p'un a yw unrhyw faes lle y bwriedir casglu data yn angenrheidiol ac yn berthnasol i ddiben y prosiect hwn, bydd Llywodraeth Cymru yn trafod hyn â'r cynigiwr cyn cadarnhau unrhyw ddyfarniad grant.

Adran Wyth – Datganiad

Mewn cais cydweithredol (lle mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu gan sawl partner) dylai'r datganiad/ardystiad gael ei gwblhau gan y darparwr arweiniol.

Dylai unrhyw un sy'n llofnodi'r datganiad hwn fod wedi'i awdurdodi'n llawn gan ei sefydliad ei hun ac, yn achos cais cydweithredol, y partner arall/partneriaid eraill sy'n rhan o'r cais.

Er na ofynnir am gopiâu o gytundebau partneriaeth rhwng partneriaid mewn cais cydweithredol fel rhan o'r cais hwn am grant, mae'r datganiad hwn yn cadarnhau eu bod ar waith ac ar gael i Lywodraeth Cymru os gofynnir amdanynt.

MEINI PRAWF ASESU CEISIADAU

1. Diben cynnal yr ymarfer ceisiadau am grant agored hwn yw galluogi Llywodraeth Cymru i nodi'r modelau darparu gwasanaethau sy'n gwneud y canlynol:
 - cyflawni dibenion y Gronfa Gyngori Sengl orau;
 - rhoi'r hyder mwyaf o ran y gallu i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel;
 - yn cynnig y gwerth gorau am arian.
2. Cynhelir asesiad cychwynnol o'r holl gynigion, a:
 - chaiff cynnig nad yw'n bodloni'r gofyniad i ddarparwr sy'n cymryd rhan yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau cyngori cyffredinol neu arbenigol fod yn ddeiliad Safon Ansawdd cyngor gydnabyddedig (neu na all ddarparu tystiolaeth gadarn y bydd yn dal Safon o'r fath erbyn y dyddiad y bydd y gwasanaethau a ariennir yn dechrau, megis cadarnhad ei fod wedi gwneud cais am archwiliad Safon Ansawdd cyngor) ei wrthod.
 - caiff cynnig lle y bydd darparwr yn darparu gwasanaeth cyngor ar ddyledion nas rheoleiddir gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (neu na all ddarparu tystiolaeth gadarn y bydd yn cael ei reoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol) ac nad yw wedi'i eithrio rhag cael ei reoleiddio gan yr awdurdod hwnnw ei wrthod
 - caiff cynnig cydweithredol, lle y bydd partner nad yw'n rhoi cyngor yn cydgysylltu'r gwasanaethau a ariennir ac nad yw'n sefydliad Nid er Elw, ei wrthod.
3. Caiff ceisiadau anghyflawn eu gwrthod hefyd ar y cam asesu cychwynnol.
4. Bydd yr asesiad o'r ymatebion i'r cwestiynau yn y ffurflen gais yn seiliedig ar fethodoleg sgorio sy'n defnyddio system sgorio wedi'i phwysoli (fel y'i dangosir yn y tabl ar dudalen 13) gyda'r sgoriau uchaf posibl yn cael eu rhestru ar gyfer pob cwestiwn sydd i'w asesu.

SICRWYDD ANSAWDD

1. Ar ddechrau cyfnod yr arian grant, h.y. 01/01/2020, mae'n **rhaidd** i ddarparwr a ariennir **feddu ar** Safon Ansawdd cyngor gydnabyddedig, sy'n briodol i lefel y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu.
2. Bydd darparwr a ariennir sy'n peidio â dal Safon Ansawdd cyngor gydnabyddedig unrhyw bryd yn ystod cyfnod yr arian grant yn hysbysu Llywodraeth Cymru ar unwaith.
3. Bydd gan Lywodraeth Cymru yr hawl i dynnu'r arian grant yn ôl oddi wrth unrhyw ddarparwr nad yw'n meddu ar Safon Ansawdd cyngor gydnabyddedig mwyach.
4. Ar ddechrau'r cyfnod ariannu, mae'n rhaid i ddarparwr, sy'n darparu gwasanaethau cyngor ar ddyled, fod yn cael ei reoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol neu ddarparu tystiolaeth ei fod wedi'i eithrio rhag yr angen i gael ei reoleiddio gan yr awdurdod hwnnw.
5. Bydd darparwr sy'n peidio â chael ei reoleiddio ar unrhyw adeg yn ystod y ariannu yn hysbysu Llywodraeth Cymru ar unwaith.
6. Bydd gan Lywodraeth Cymru yr hawl i dynnu unrhyw arian grant yn ôl mewn perthynas â darparu gwasanaethau cyngor ar ddyled oddi wrth unrhyw ddarparwr nad yw'n cael ei reoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol mwyach, p'un a yw'n meddu ar safon Llywodraeth Cymru o hyd ai peidio.
7. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn defnyddio dulliau eraill, h.y. Asesu gan Gymheiriaid, er mwyn sicrhau bod y wybodaeth a'r cyngor sy'n cael eu rhoi gan ddarparwr o ansawdd derbyniol. Bydd yn ofynnol i ddarparwr, wrth dderbyn grant, gadarnhau ei fod ef (a'r holl bartneriaid mewn cais cydweithredol) yn cytuno i ymgysylltu a chyfranogi'n llawn o fewn y mesurau sicrwydd ansawdd y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu defnyddio.

STRWYTHUR SEFYDLIADOL

8. Mae'n rhaid i sefydliad a ariennir ddarparu siart sefydliadol a rhoi templedi i Lywodraeth Cymru sy'n amlinellu'r swydd-ddisgrifiad ac elfennau hanfodol manyleb y person ar gyfer y canlynol:
 - staff gweinyddol;
 - cynghorwyr;
 - goruchwylwyr;

- gweithwyr cymorth;
- rheolwyr cyngor;
- cydgysylltwyr consortiwm;
- pob swydd arall a fydd yn cyfrannu at ddarparu'r gwasanaethau a ariennir.

Un o egwyddorion y grant yw bod yr arian grant yn talu am **weithgareddau ychwanegol** na fyddent yn digwydd fel arall pe na châi'r grant ei dalu. Dylai'r siart sefydliadol ddangos p'un a yw swyddi yn cael eu dal gan staff sydd eisoes wedi'u cyflogi gan y sefydliad a'u henwi neu b'un a fyddant yn cael eu recriwtio. Os ydynt eisoes yn aelodau o staff darparwr a'u bod yn cael eu hariannu ar hyn o bryd gan ffynhonnell ariannu wahanol, mae'n rhaid esbonio hyn yn glir, gan nodi'n glir o ba ffynhonnell ariannu y bydd yr aelod o staff yn symud, er mwyn sicrhau na chaiff arian ei ddyblygu na'i gyfrif ddwywaith. Os bydd aelod o staff yn cael ei rannu rhwng mwy nag un o'r 13 o gyfleoedd ariannu sydd ar gael, dylai'r siart sefydliadol nodi'n glir pa gyfran o'r aelod o staff sy'n cael ei neilltuo i ba wasanaeth penodol.

Gwasanaethau Technegol

9. Mae'n rhaid i oruchwyliwyr technegol staff sydd ynghlwm wrth ddarparu'r gwasanaethau cynghori a ariennir fod yn gynghorwyr lles cymdeithasol profiadol ac, yn achos y gwasanaethau cyngor arbenigol, mae'n rhaid i oruchwyliwr technegol fod yn weithiwr achos arbenigol profiadol yn y maes pwnc a ariennir y mae cyngor yn cael ei roi mewn perthynas ag ef, h.y. budd-daliadau lles, neu ddyledion, neu dai, ac ati.

COFNODION SESIYNAU CYNGHORI A GWAITH A WNAED

10. Mae'n rhaid darparu tystiolaeth ar gyfer yr holl achosion a ariennir gan Lywodraeth Cymru ar ffurf cofnod cynhwysfawr o achosion, p'un a roddir caniatâd i gynnal gwerthusiad allanol ai peidio (gweler pwynt 11 isod). Bydd hyn yn cynwys unrhyw ryngweithio rhwng y cleient a thrydydd partïon ac unrhyw waith a wneir i ymdrin â'r achos neu ei adolygu.

ADRODD A GWYBODAETH AM WEITHGARWCH MONITRO

11. Bydd yn ofynnol i ddarparwr a ariennir gyflwyno adroddiadau monitro chwarterol i Lywodraeth Cymru ar berfformiad y gwasanaeth a ariennir, yn ogystal â darparu gwiriadau cydymffurfio. Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu canllawiau.
12. Bydd yn ofynnol i ddarparwr a ariennir ddarparu gwybodaeth am nodweddion gwarchodedig pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth gwybodaeth a chynghor. Bydd

Llywodraeth Cymru a'r darparwr a ariennir yn cytuno ar y wybodaeth sydd i'w darparu.

13. Bydd yn ofynnol i ddarparwr a ariennir roi copi o'i gofrestr risg wedi'i diweddaru i Lywodraeth Cymru bob chwarter. Os nodir risg sylweddol newydd yn ystod y cyfnod adrodd, dylid hysbysu Llywodraeth Cymru amdani o fewn pum diwrnod gwaith, neu'n gynt os yw'n bosibl.

GWERTHUSO

14. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y cysylltiadau rhwng allbynnau'r gwasanaethau cynghori y mae'n eu comisiynu a'r canlyniadau tymor hwy i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn. Er mai megis dechrau yw'r gwaith, disgwylir i ddarparwr sy'n cael arian grant gan Lywodraeth Cymru ymgysylltu'n llawn â'r maes gwaith datblygiadol hwn.
15. Gallai'r ystyriaeth hon sy'n cael ei rhoi i'r canlyniadau cynaliadwy hirdymor i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau cynghori a ariennir gan Lywodraeth Cymru gynnwys defnyddio trydydd parti i werthuso canlyniadau a/neu wneud gwaith ymchwil ychwanegol gydag unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaethau cynghori a ariennir.
16. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r holl ddarparwyr a ariennir ganddi er mwyn sefydlu dulliau arfer gorau o hyrwyddo manteision gwerthuso i ddefnyddwyr gwasanaethau a'u hannog i roi eu cydsyniad ar sail gwybodaeth i gael eu gwerthurso. Bydd yn ofynnol i ddarparwr a ariennir gadarnhau (a phob partner sy'n rhan o fodel darparu gwasanaethau cydweithredol) ei fod yn fodlon cymryd rhan yn y gwaith hwn yn ystod y cyfnod y bydd yn derbyn arian grant.

AMRYWIOL

17. Mae cynigiwr yn gyfrifol am gael cyngor, ar ei draul ei hun, ynghylch unrhyw hapddigwyddiadau yn y dyfodol; neu unrhyw amgylchiadau eraill; neu faterion a allai effeithio mewn unrhyw ffordd ar ei gais am arian grant. Er enghraifft, os bydd un o gyflogeion darparwr sy'n cael arian ar hyn o bryd o un o ffrydiau arian grant Llywodraeth Cymru yn gofyn a yw ei gyflogaeth bresennol a ariennir gan grant yn dod o dan Reoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006 (TUPE).

CANLLAWIAU AR GYLLID

1. Gofynnir i ddarparwr a ariennir gadarnhau y proffiliau o wariant a darparu diweddariadau ar gyfer y gwariant disgwyliedig yn rheolaidd yn ystod cyfnod yr arian grant.

Hawliadau a Thalu

2. Caiff y grant ei dalu bob chwarter mewn ôl-daliadau ar ôl i hawliadau wedi'u dogfennu'n gywir gael eu cyflwyno yn unol â'r darpariaethau a gaiff eu nodi yn y llythyr dyfarnu grant/amodau ffurfiol. Fodd bynnag, gellir gwneud taliadau ymlaen llaw os gellir dangos yn glir fod hyn yn angenrheidiol. Os yw'n briodol, gall darparwyr ofyn am dempled Talu Ymlaen Llaw neu gadarnhau bod un wedi'i gyflwyno am y cyfnod ariannol presennol ar gyfer arian grant arall a ddyrennir gan Lywodraeth Cymru.

Hysbysiad preifatrwydd: Grantiau Llywodraeth Cymru

3. I gael gwybodaeth am y ffordd rydym yn trin unrhyw ddata personol a ddarperir gennych mewn perthynas â'ch cais am grant, cliciwch yma **Hysbysiad Preifatrwydd Llywodraeth Cymru**
4. Caiff y wybodaeth rydym wedi'i chasglu gennych ei rhannu ag asiantaethau atal twyll a fydd yn ei defnyddio i atal twyll a gwyngalchu arian a chadarnhau pwy ydych. Os canfyddir twyll, mae'n bosibl y gwrthodir rhoi gwasanaethau, cyllid neu gyflogaeth benodol i chi yn y dyfodol.
5. Ceir rhagor o fanylion am y ffordd y caiff eich gwybodaeth ei defnyddio gennym a'r asiantaethau atal twyll hyn, a'ch hawliau diogelu data, drwy e-bostio Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru.

Diffiniadau o Fathau o Wybodaeth a Chyngor²

Math Un – Gwybodaeth

Mae'n disgrifio gwasanaeth sy'n rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar gleientiaid er mwyn iddynt wybod mwy a gwneud mwy am eu sefyllfa. Gall gynnwys darparu gwybodaeth am bolisiâu, hawliau ac arferion; ac am wasanaethau lleol a gwasanaethau i Gymru gyfan a gwasanaethau a fydd, o bosibl, yn gallu cynnig rhagor o help i'r cleient. Y cleient sy'n gyfrifol am gymryd unrhyw gamau pellach.

E.e. mae cleient yn gofyn a all gael help gyda'i dreth gyngor. Rydych yn rhoi taflen, "Help gyda Threth Gyngor" iddo ynghyd â manylion dau wasanaeth cynghori lleol sy'n cynnig cyngor ar fudd-daliadau lles.

Math Dau – Canllawiau

Mae'n disgrifio gwasanaeth a all drafod manteision ac anfanteision gwahanol opsiynau heb wneud argymhellion penodol. Gall gynnwys gwneud a derbyn atgyfeiriadau, nodi argyfyngau a blaenoriaethu materion.

E.e. mae cleient am ddeall ei opsiynau o ran cyllid cyn dewis car newydd neu gar ail-law. Mae'r cynghorydd ariannol yn esbonio nodweddion gwahanol opsiynau prynu ond nid yw'n argymhell opsiwn cyllido na darparwr cyllid penodol.

Math Tri – Cyngor

Mae'n disgrifio gwasanaethau sy'n canfod problem gyfreithiol y cleient ac unrhyw faterion cyfreithiol cysylltiedig; mae'n nodi opsiynau a deddfwriaeth berthnasol a phenderfynu sut mae'n gymwys i amgylchiadau penodol cleient; mae'n cynnwys nodi goblygiadau a chanlyniadau camau gweithredu o'r fath a'r sail dros weithredu; mae'n cynnwys llenwi ffurflenni; mae'n darparu gwybodaeth am faterion sy'n berthnasol i'r broblem megis rhoi cyngor ar y camau nesaf a nodi dyddiadau erbyn pryd y mae'n rhaid cymryd camau er mwyn sicrhau hawliau'r cleient. Gellir rhoi cyngor ar fwy nag un achlysur.

E.e. mae cleient yn gofyn a all gael help i ofalu am gymydog oedrannus. Rydych yn gwirio hawl y cleient i fudd-daliadau ac yn nodi y gall fod ganddi'r hawl i hawlio Lwfans Gofalwyr yn dibynnu ar sefyllfa ei chymydog o ran budd-daliadau. Rydych yn dweud wrth y cleient am gael ffurflen gais er mwyn diogelu ei dyddiad hawlio posibl ac yn cynnig manylion gwasanaethau a all gynnig help i'r cleient a'i chymydog.

² Fel y'u cyhoeddwyd yn Fframwaith Sicrhau Ansawdd Gwybodaeth a Chyngor Cymru Llywodraeth Cymru.

Math Pedwar – Cyngor gyda gwaith achos

Mae'n cynnwys pob elfen o wasanaeth cyngori, ac mae hefyd yn cynnwys gweithredu ar ran y cleient i symud yr achos yn ei flaen. Gallai gynnwys negodi ar ran y cleient â thrydydd partïon dros y ffôn, drwy lythyr neu wyneb yn wyneb. Bydd yn cynnwys y darparwr cyngor yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am waith dilynol.

E.e. mae myfyriwr yn ei chael hi'n anodd cael ei flaendal am ddifrod yn ôl gan landlord lleol. Rydych yn cysylltu â'r landlord ac yn esbonio y byddwch yn helpu'r myfyriwr i adennill uchafswm gwerth y blaendal. Mae'r landlord yn honni bod difrod wedi'i wneud i'r eiddo, honiad y mae'r myfyriwr yn ei dderbyn yn ddiweddarach. Rydych yn helpu'r ddau i gytuno ar swm rhesymol i'w ddiwynnu er mwyn gwneud iawn am y difrod.

Math Pump – Gwaith achos arbenigol

Mae'n disgrifio gwasanaethau lle mae'r cyngorydd neu'r gwasanaeth yn ei gyfarwydd yn ymgymryd â gwaith cyngori a gwaith achos ar lefel lle mae angen gwybodaeth fanwl iawn o'r gyfraith a chyfraith achosion. Fel arfer, mae hyn yn golygu y caiff ei roi gan gyngorydd sy'n meddu ar wybodaeth ac arbenigedd ar y dyfnder sydd ei angen i gynrychioli cleientiaid yn y llys neu'r tribiwnlys.

E.e. mae achos cleient wedi methu mewn tribiwnlys nawdd cymdeithasol haen gyntaf. Mae eich cyngorydd yn nodi gwall cyfreithiol ym mhenderfyniad y tribiwnlys y bydd yn mynd ymlaen i'w ddadlau gerbron yr Uwch Dribiwnlys. Bydd ei ddadleuon yn cyfeirio at ddeddfwriaeth a chyfraith achosion.